

## Cofion

Anfonwn ein cofion heddiw at John H. Williams (Llanefydd) sy'n parhau i gael gofal yn yr Inffirmari, fel ag y mae Dilys Jones (Nantglyn) yn Ysbyty Glan Clwyd ond sy'n gobeithio cael mynd adre yn y dyddiau nesaf. Gweddiwn y bydd Duw yn Ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur i'r ddau a phawb arall sydd heb fod yn dda y dyddiau hyn.

## I ddod

- **“CLYWSOCH FEL Y DYWEDWYD”...SORI, BE?** – sesiwn ymarferol yn Llanefydd nos Fercher, Mehefin 21ain am 7.30 i'n helpu i glywed Gair Duw yn gliriach, yn cynnwys creu map i ganfod ein ffordd drwy'r Beibl.
- **PENWYTHNOS MERCHED** yn y Bala ar Mehefin 23ain-24ain. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: [colegybala@ebcpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpcw.org.uk) / 01678 520565.
- **SUL Y FRO** dydd Sul, Mehefin 25ain yng nghwmni Steffan Morris:
  - **“i-Grist”** – Oedfa'r bore yn Llansannan am 10.30 i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth. Yn dilyn yr oedfa, byddwn yn mynd i'r Brenig i gael picnic ac i gymdeithasu, tra bydd cyfle i'r plant fwynhau y maes antur sydd newydd agor yno. (Os na fydd y tywydd yn caniatáu inni fynd i'r Brenig, mae trefniadau wedi eu gwneud inni fynd i'r Ganolfan yn Llansannan i gael ein picnic, a bydd gemau wedi eu trefnu i'r plant.)
  - Yna am 6.00, eto yn Llansannan, cynhelir **“Oedfa o Fawl”** pryd byddwn yn dathlu tri chan mlwyddiant geni William Williams, Pantycelyn, un o emynwyr mwyaf Cymru, ac yn rhoi sylw arbennig i'w emynau bendigedig. Croeso i bawb!
- **TAITH GERDDED HAMDDENOL I'R OFALAETH** nos Fercher, Mehefin 28ain yn ardal Henllan. Mwy o fanylion i ddilyn. Croeso i bawb.
- **CWRDD CHWARTER CYFUNDEB GORLLEWIN DINBYCH A FFLINT** yn cyfarfod nos lau, Mehefin 29ain am 7.00 yng Nghapel Bethel, Yr Wyddgrug. Yn dilyn y cyflwyniad a gafwyd yn y Cwrdd Chwarter diwethaf o arolwg yr Undeb o sefyllfa y Cyfundebau, bydd trafodaeth ymhellach fel y medrwn gadarnhau a chryfhau ein gwaith, a darganfod y ffordd orau i'r Cyfundeb fedru symud ymlaen.
- **DATHLU 150 MLYNEDD ERS SEFYDLU CAPEL LLANEFYDD A 10 MLYNEDD ERS ADDASU'R ADEILAD** – Oedfa Deuluol bore Sul, Gorffennaf 9fed am 10.30 o dan arweiniad y Parch. Ddr Rhodri Glyn. Cinio'r dathlu yn dilyn yn y neuadd. Os oes gennych luniau neu atgofion, a fydddech gystal â'u rhannu efo un o'r blaenoriaid erbyn Gorffennaf 1af os gwelwch yn dda?



# Llais Bro Aled

## Dydd Sul, 11<sup>eg</sup> Mehefin 2017

### Darlleniad y Dydd

Micha 4:6-8

(BCND tud.844 / BCN tud.769)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Bore da a chroeso i wasanaethau Bro Aled heddiw. Gweddiwn y byddwn yn dod i adnabod yr Arglwydd yn well wrth i ni ddod at ein gilydd o dan awdurdod Ei Air.

Tybed faint ohonom sydd wedi ein siomi efo'r tywydd wythnos yma? Ar ôl cyfnod o dywydd braf, sefydlog a sych, rydym wedi mynd yn syth i Hydref cynnar! Efallai ei fod yn newyddion da i ffermwyr, ond i'r rhai ohonom sy'n ceisio chwarae criced, mae'n annifyr iawn. Mae'r gwynt yn ein chwythu i bob cyfeiriad a'r glaw yn ein cadw rhag mynd y tu allan. Fe allwn deimlo fel yna mewn bywyd – fod pethau yn ein taflu o gwmpas ac yn ein cadw ni rhag gwneud y pethau rydym ni eisiau ei wneud. Yn aml, yn enwedig wrth ystyried yr ymosodiadau terfysgol sydd wedi taro Prydain dros yr wythnosau diwethaf a thros y byd yn y blynyddoedd diwethaf, mae'n gallu teimlo fel petaen ni mewn gwynt cryf sy'n ein taflu o gwmpas. Wrth fynd trwy sefyllfaoedd caled, gall ein hyder gael ei daro, a'n gobaith gael ei erydu.

Yn y sefyllfaoedd yma, faint o gysur ydy geiriau'r proffwyd Micha o'n darlleniad heddiw? Gan siarad mewn amser pan fydd pobl Dduw yn cael eu gwasgaru a'u cymryd yn gaethweision, mae Micha yn proffwydo cyfnod gwell. Mae'n gweld, trwy'r sefyllfa anodd, trychinebus i bobl Dduw, fod amser rhagorach i ddod, amser pan fydd yr Arglwydd “yn casglu'r rhai sydd ar chwâl”, y rhai cloff, y rhai sydd wedi cael eu anafu gan brofion ysbrydol (adn 6) ac yn dod â nhw o dan ei ofal. Mae'n ddarlun o bobl fregus iawn, sydd wedi cael eu profi ac wedi dod trwy'r profion ysbrydol a chorfforol hynny, ond nid heb friwiau. Proffwydoliaeth Micha yma ydy y bydd Duw – sydd yn Frenin ac yn amddiffynnwr i'r bobl hyn – yn cael y safle anrhydedd yn eu bywydau. Hynny ydy, er y diogelwch a'r noddfa a'r cysur sydd i'w gael yn nwylo'r Arglwydd, y peth mwyaf godidog am gael dod yn rhan o Deyrnas Duw ydy Ei fod yn cael y safle anrhydedd yn ein bywydau ni.

Ein dyfodol a'r hyn sy'n rhoi gobaith i ni fel Cristnogion ydy gwybod fod y diwrnod yma yn mynd i ddod. Mi fydd diwrnod pan fydd pob poen a thristwch a dioddefaint yn dod i ben. Ond yn fwy rhagorol, bydd dydd yn dod pan fydd pob gliin yn plygu a phob pen yn ymgrymu i enw hyfryd ein hiachawdwr Iesu Grist.

## Darlleniad Wythnos Nesaf

Datguddiad 21:1-6 (BCND tud.285 / BCN tud.261)

**DILYNWCH NI:** [@eglwysibroaled](https://twitter.com/eglwysibroaled)

*Gwion*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 11<sup>eg</sup> ➤ **Cymanfa Ganu Annibynwyr Dyffryn Clwyd** yng Nghapel Pendref, Rhuthun am 2.30. Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2016-17. Arweinydd: Nia Edwards, Llangwm. Croeso i bawb.
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Gwener – 16<sup>eg</sup> ➤ **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) yn Preswylfa, Cefn Meiriadog am 6.00.
- Sul nesaf – 18<sup>fed</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwawr Davies, a bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 11<sup>eg</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng NGHEFN MEIRIADOG (sylwch ar y newid lleoliad) am 10.30, a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.
- Mawrth – 13<sup>eg</sup> ➤ Cofiwch am y cinio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15.
- Sul nesaf – 18<sup>fed</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 11<sup>eg</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Mercher – 14<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **erbyn dydd Sul, Mehefin 11eg**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 18<sup>fed</sup> ➤ Bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa fedydd yn Llansannan am 10.00 pryd y bydd Rhodri a Gwenno Glyn yn cyflwyno Llio i gael ei bedyddio. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg a chynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10. Yna, yn y prynhawn, bydd rhai o'r aelodau yn mynd i'r Hen Ficerdy, Pandy Tudur i gynnal gwasanaeth.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 11<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 18<sup>fed</sup> ➤ Bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yn Saron am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 11<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith yn Henllan am 10.00 ac yna bydd yr aelodau yn mynd ar bererindod.
- Sul nesaf – 18<sup>fed</sup> ➤ Bydd oedfa wedi ei threfnu i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 11<sup>eg</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Gwener – 16<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul, Mehefin 11eg**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 18<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir Oedfa Deuluol i'r daith dan arweiniad Gwion yn Llanefydd am 10.00.

### Manylion Cyswilt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291

Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 582644 📞 07849 591163

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536

*Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

### Eglwysi Bro Aled

**Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.**